OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 1983

## Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013

*Darpariaethau terfynol*

**Cyflwyno hysbysiadau**

**20.**—(1) Pan fo hysbysiad cosb wedi ei gyflwyno drwy'r post dosbarth cyntaf(**1**) bernir bod y cyflwyno wedi cael effaith, oni phrofir i'r gwrthwyneb, ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl i'r hysbysiad gael ei bostio.

(2) Yn y rheoliad hwn ystyr "diwrnod gwaith" yw diwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n ŵyl banc o fewn ystyr Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**2**).

**Symiau y mae awdurdodau lleol yn eu cael**

**21.**—(1) Swyddogaethau awdurdod lleol a bennir at ddibenion adran 444A(6)(a) o Ddeddf 1996 yw dyroddi a gorfodi hysbysiadau cosb, ac erlyn y derbynwyr hynny nad ydynt yn talu.

(2) I'r graddau nad yw'r symiau a gaiff awdurdod lleol yn cael eu defnyddio at ddibenion y swyddogaethau a bennir ym mharagraff (1), rhaid iddynt gael eu talu i Weinidogion Cymru.

(**1**) Mae adran 572 o Ddeddf Addysg 1996 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno hysbysiadau.
(**2**) 1971 p.80.